




Beth yw Ymgyrch Beaconport?

Mae Ymgyrch Beaconport yn ymgyrch plismona cenedlaethol sydd wedi'i sefydlu yn dilyn argymhellion gan Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey i Gam-drin a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol ar sail Grŵp.

Dan arweiniad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, mae'r ymgyrch yn adolygu ymchwiliadau a gaewyd yn flaenorol i gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar sail grŵp a riportiwyd yng Nghymru a Lloegr rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Mawrth 2025. Nod yr ymgyrch yw nodi cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, cryfhau diogelu a gwella ymatebion i gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar sail grŵp yn y dyfodol.



Gallwch ddysgu mwy am Ymgyrch Beaconport yn iamready.org.uk/faqs



Gwybodaeth bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Ymgyrch
Beaconport, cysylltwch â'ch Pwynt Cyswllt
Ymgyrch Beaconport lleol neu ewch i wefan
iamready.org.uk

**OPERATION
BEACONPORT**



Ymgyrch **Beaconport.**

Ceisio Cyfiawnder. Amddiffyn Plant.
Rhoi Cymorth i Oroeswyr.



Pa achosion sy'n cael eu hadolygu?

Mae Ymgyrch Beaconport yn adolygu ymchwiliadau a gaewyd yn flaenorol sy'n bodloni meini prawf cenedlaethol cytûn, gan gynnwys:

- ✓ Achosion o gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol a gafodd eu riportio rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Mawrth 2025.
- ✓ Achosion lle'r oedd dau neu fwy o bobl dan amheuaeth yn rhan o'r digwyddiad.
- ✓ Achosion lle'r oedd o leiaf un dioddefwr neu oroeswr.
- ✓ Achosion lle cafwyd troseddau corfforol (gellir cynnwys achosion yn cynnwys cyfuniad o gam-drin corfforol ac ar-lein hefyd).
- ✓ Cafodd yr ymchwiliad ei derfynu gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron gyda phenderfyniad o 'Dim Camau Gweithredu Pellach'.

Lle mae adolygiadau'n nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu pellach, gellir atgyfeirio achosion i gael adolygiad llawn o'r dystiolaeth a gellir eu hystyried ar gyfer ail ymchwiliad posibl.

**I AM
READY**

IAmReady

Gwefan yw **IAmReady** sy'n rhoi gwybodaeth am gymorth, riportio a phrosesau adolygu i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol.

Trwy ateb cyfres o gwestiynau, gellir cyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at yr opsiwn mwyaf perthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Gall hyn gynnwys:



Ymgyrch Beaconport



Y Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSARP)



Hawl dioddefwyr i adolygiad




Gwybodaeth am riportio cam-drin i'r heddlu



Gwasanaethau cymorth arbenigol

Mae'r wefan yn cynnwys porth pwrpasol lle gall dioddefwyr a goroeswyr rannu gwybodaeth a chael gwybodaeth am eu hopsiynau o ran adolygu achos a gaewyd yn flaenorol. Mae ceisiadau'n cael eu cyfeirio at y broses adolygu fwyaf priodol.



Os yw aelod o'r cyhoedd eisiau gwybodaeth am Ymgyrch Beaconport, opsiynau adolygiad neu wasanaethau cymorth sydd ar gael, dylid eu cyfeirio at iamready.org.uk



Cwestiynau Cyffredin - Beth alla'i ddweud wrth y cyhoedd?

Sut gall y cyhoedd ddysgu mwy am Ymgyrch Beaconport?

Mae gwybodaeth am Ymgyrch Beaconport, sut i ganfod a yw achos yn dod o fewn cwmpas yr ymgyrch, a gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar gael ar wefan **IAmReady**.

Sut gall dioddefwyr neu oroeswyr ganfod a yw eu hachos yn dod o fewn cwmpas Ymgyrch Beaconport?

Mae tudalen **IAmReady** yn gofyn cyfres o gwestiynau byr i helpu i benderfynu a yw achos yn debygol o gael ei adolygu yn rhan o Ymgyrch Beaconport. Mae gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar gael yno hefyd.

Beth os nad yw dioddefwyr a goroeswyr eisiau i'w hachos gael adolygiad o dan Ymgyrch Beaconport?

Efallai y bydd Ymgyrch Beaconport yn adolygu achos yn rhan o'r ymgyrch ehangach, ond mae'r porth yn caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr nodi a ydynt eisiau i swyddogion sy'n ymchwilio gysylltu â nhw ai peidio.

